BWLETIN POLISI CYTÛN

AWST 2018

MYND I'R AFAEL Â HER YR AMGYLCHEDD

Mae'r eglwysi Cristnogol yn credu mai cread Duw yw'r byd hwn, ac felly mai materion 'amgylcheddol' hefyd yn faterion diwinyddol a moesol – mae ein hymwneud â'r amgylchedd yn rhan ganolog o'n hymwneud â Duw ei hun.

Gyda gofid am faterion megis llygredd plastig wedi'i hybu gan gyfres David Attenborough, Blue Planet II, a chyfreithiau Ewropeaidd sy'n gwarchod yr amgylchedd yn cael eu trosglwyddo i gyfraith Brydeinig a Chymreig oherwydd Brexit (gweler tudalen 4), nid oes ryfedd fod yr eglwysi wedi cydio o'r newydd yn yr her.

Mae gan yr Eglwys yng Nghymru weithgor CHASE sydd yn cadw golwg ar y materion hyn. Mae Undeb yr Annibynwyr Cymraeg wrthi yn diweddaru eu pecyn amgylcheddol arloesol a gyhoeddwyd yn wreiddiol ym 1992. A mae Rhwydwaith Materion Amgylcheddol Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon yn dod â'r holl eglwysi ac asiantaethau amgylcheddol Cristnogol ynghyd i rannu adnoddau, gweddïo a gweithredu.

Cynhaliwyd cyfarfod y rhwydwaith ym Mehefin 2018 yn Eglwys y Santes Fair, Trebiwt, ar y cyd â CHASE, a chafwyd cyflwyniad bywiog a difyr gan Terri Thomas o Lywodraeth Cymru am bolisïau amgylcheddol Cymru, yn enwedig yng ngoleuni Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Roedd y cynrychiolwyr o wledydd eraill ynysoedd Prydain yn falch o glywed am rai o syniadau blaengar Cymru ac yn awyddus i fynd â'r neges yn ôl i'w gwaith nhw. Roedd y cyfarfod hwn yn ddilyniant naturiol i gyfarfod gyda Tim Leunig, uwch gynghorydd polisi Ysgrifennydd Gwladol y DU dros yr Amgylchedd, Amaeth a Materion Gwledig, Michael Gove, yn Llundain ym Mawrth 2018. Mae'r ddau gyfarfod wedi bwydo i lunio ymateb Gweithgor Cymru ac Ewrop Cytûn i ymgynghoriad adran Mr Gove yn Llywodraeth y DU am Egwyddorion a Llywodraethiant Amgylcheddol i'r dyfodol.

Mae Cytûn yn cynrychioli ein haelod eglwysi a mudiadau mewn nifer o weithgareddau am yr amgylchedd, megis cynhadledd y Sefydliad Materion Cymreig ym Mehefin 2018 pan fu Gweinidog Amgylchedd Cymru, Hannah Blythyn AC (llun ar y dde), yn annerch am gamau Llywodraeth Cymru at greu Cymru ddi-blastig.

Mae mis Medi yn rhoi cyfle arbennig i weddïo a gweithredu am yr amgylchedd yn Nhymor y Creu, sy'n cynnwys gwasanaethau diolchgarwch yn llawer o'n heglwysi. Ceir adnoddau pwrpasol ar wefan Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon. Llynedd fe gynhyrchwyd adnoddau dwyieithog defnyddiol gan Esgobaeth Bangor yr Eglwys yng Nghymru.

BENDITH DUW AR Y GWASANETH IECHYD

Ar Orffennaf 5ed 2018 fe ddathlwyd 70 mlwyddiant y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, a ddyfeisiwyd gan y Cymro Aneurin Bevan AS.

Ymhlith yr amryfal ddathliadau oedd un dan arweiniad Eglwys Undebol Dewi Sant, Pontypridd, a drefnodd daith gerdded o Ogledd i Dde Cymru yn galw mewn sefydliadau iechyd ar hyd y daith i ddiolch i'r gweithwyr am eu hymroddiad ac addo parhau i weddïo drostynt. Mae'r lluniau uchod yn dangos ymweliadau'r cerddwyr â Chanolfan Iechyd Croesoswallt ac Ysbyty Goffa Aberhonddu.

Buwyd hefyd yn casglu cardiau diolch a gyflwynwyd i'r Ysgrifennydd Cabinet dros Iechyd, Vaughan Gething AC, ar risiau'r Senedd ar Orffennaf 17, yng nghwmni Côr Tenovus, plant ysgolion lleol a llu o'r cyhoedd.

GWEITHGAREDDAU CREADIGOL MEWN ADEILADAU CREFYDDOL

Rhan o weithgarwch Duw Fendithia'r GIC (gweler uchod) oedd gwau anrhegion diolch i weithwyr y Gwasanaeth Iechyd gan grŵp crefft capel Castle Square yn Nhrefforest. Mae hyn yn enghraifft o'r math o weithgarwch y gwyddom ei fod yn digwydd mewn capeli ac eglwysi ac adeiladau crefyddol eraill ar hyd a lled Cymru.

Voluntary Arts Wales
Celfyddydau Gwirfoddol Cymru

Mae **Celfyddydau Gwirfoddol Cymru** yn elusen sy'n hyrwyddo cyfranogiad mewn gweithgareddau diwylliannol creadigol. Maent yn ymchwilio ehangder ac amrywiaeth y gweithgareddau creadigol anffurfiol, bob dydd sy'n digwydd ledled Cymru - a gwyddom fod llawer o weithgarwch yn digwydd mewn adeiladau crefyddol fel neuaddau eglwys.

Byddent yn ddiolchgar iawn pe gallech gwblhau arolwg byr yn: https://www.surveymonkey.co.uk/r/S2KS276, fel y gallant dynnu sylw at y gweithgareddau creadigol sy'n bodoli o fewn cymunedau ledled Cymru. Mae gan yr holiadur gefnogaeth Cytûn, a byddem yn awyddus i gymaint o eglwysi ag yn bosibl achub ar y cyfle i'w lenwi.

BREXIT – Y DIWEDDARAF

Seiliedig ar gyflwyniad gan Gethin Rhys, Swyddog Polisi Cytûn, yng Ngŵyl Coda, Dôl Llys, Llanidloes, 29 Gorffennaf 2018.

Am ddwy flynedd bellach fe fu eglwysi Cymru, yn gweithio drwy Weithgor Cymru ac Ewrop Cytûn, yn gwneud eu gorau i fynd i'r afael â her ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, a hynny o safbwynt Cristnogol. Nid ymhél â chymhlethdod yr Undeb Tollau neu'r Farchnad Sengl fu ein prif flaenoriaeth, na chwaith dilyn hynt a helynt y trafodaethau mewnol ym Mhrydain na'r trafodaethau rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd – ceir digon o sylwebaeth am hynny mewn mannau eraill.

Rydym ni wedi canolbwyntio ar nifer o faterion sydd o ddiddordeb a phryder arbennig i'n haelod eglwysi, a dyma grynodeb byr o le'r ydym arni ar ddiwedd Gorffennaf 2018.

1. Y ffin ar Ynys Iwerddon

Rydym yn trafod yn gyson gydag eglwysi Iwerddon am eu pryderon am effaith bosibl cau neu 'galedu''r ffin rhwng Gweriniaeth a Gogledd Iwerddon. Mae adroddiadau diweddar yn y wasg wedi awgrymu fod gan Brif Weinidog y DU, Mrs Theresa May, "obsesiwn" am y pwnc hwn. Os felly, rydym yn croesawu hynny, gan fod cadw'r heddwch yn Iwerddon yn flaenoriaeth i ni ac i'n brodyr a'n chwiorydd yno. Fel y bu i Cytûn nodi pan gyhoeddwyd y Cytundeb Interim rhwng y DU a'r UE yn Rhagfyr 2017, mae cadw'r ffin yn gwbl agored yn rhwym o olygu elfen o alinio trefn tollau a masnachu y Deyrnas Unedig â threfn yr Undeb Ewropeaidd, a dyna gynigiwyd gan y DU yn ei Phapur Gwyn yng Ngorffennaf 2018. Parhawn i weddïo gyda'n cyd-Gristnogion yn yr Iwerddon am ddatrysiad a fydd yn cwrdd â'u dyheadau dwfn am heddwch a chydweithredu parhaus ar draws eu hynys.

2. Hawliau dynol

Mae Cytûn wedi galw am gadw cymaint ag yn bosibl o Siarter Hawliau Sylfaenol yr Undeb Ewropeaidd yn rhan o gyfraith y Deyrnas Unedig wedi i ni ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Fe wrthodwyd gwelliannau i'r perwyl hwnnw wrth drafod Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) yn San Steffan, felly fe ymddengys na fydd gan unigolion bellach hawl i geisio iawn cyfreithiol drwy'r llwybr hwn os ydynt yn dioddef cam wrth i'r Llywodraeth weinyddu'r cyfreithiau a ddaw yn ôl o'r Undeb Ewropeaidd wrth i ni ymadael.

Ond nid yw hynny yn golygu colli pob hawl dynol. Mae Confensiwn Hawliau Dynol Ewrop (a gynhwysir yng nghyfraith gwledydd Prydain drwy Ddeddf Hawliau Dynol 1998) o hyd yn weithredol. Fe weinyddir y Confensiwn gan Gyngor Ewrop a Llys Hawliau Dynol Ewrop, sydd yn sefydliadau hollol ar wahân i'r Undeb Ewropeaidd, yn cynnwys pob gwlad yn Ewrop ag eithrio Belarus. Rydym yn falch iawn o weld ymrwymiad diamod i barhau o fewn y drefn yna yn y Papur Gwyn, sydd yn lliniaru rhai o'r ofnau godwyd gan ymrwymiadau ym maniffesto'r Blaid Geidwadol yn etholiadau 2010 a 2015 i ystyried newid y drefn honno, ac ym maniffesto 2017 i aros o fewn y Confensiwn dim ond am hyd y Senedd nesaf.

3. Dinasyddion yr UE yng Nghymru a dinasyddion y DU yng ngwledydd yr UE

Mae gan ein heglwysi ni nifer helaeth o aelodau sy'n ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd, rhai wedi bod yma ers degawdau, a rydym yn ymwybodol iawn o'u pryderon am y dyfodol. Rydym yn falch fod Llywodraeth y DU wedi cynnig statws newydd yn y DU i ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd sy'n byw yma eisoes a'u teuluoedd a bod manylion y drefn

arfaethedig wedi'u cyhoeddi. Ond mae gofid yn parhau oherwydd nid oes sicrwydd y bydd y statws newydd hwn yn cael ei gyflwyno os nad oes cytundeb cynhwysfawr rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd. Meddai Ysgrifennydd Gwladol dros Adael yr Undeb Ewropeaidd, Dominic Raab AS, yn Nhŷ'r Cyffredin ar Orffennaf 24, "We are very clear that, in the event of no deal, there would be no wholesale removal of rights of EU nationals in this country." Nid yw ystyr 'wholesale' yn eglur yn y cyd-destun hwn. Mae'r mudiad the3million yn ofidus am hyn a nifer o fanylion y drefn sydd o hyd yn annelwig.

Rydym yn falch hefyd fod Llywodraeth Cymru yn cynnig mynediad i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru ar sail preswylio yma (yn hytrach nag ar sail statws mewnfudo) a bod Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) wedi cadarnhau hawl dinasyddion Ewropeaidd i bleidleisio.

Mae Esgobaeth Ewrop Eglwys Loegr yn gweithio ar ran yr eglwysi i geisio eglurder yn achos dinasyddion y DU sydd yn byw ar gyfandir Ewrop. Ni chafwyd manylion hyd yma gan ran fwyaf y gwledydd hynny sut y byddan nhw yn gweithredu wedi i'r DU ymadael.

4. Gweithredu'r Ddeddf Ymadael

Mae Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 bellach ar waith, ac yng ngoleuni'r Cytundeb Rhyng-lywodraethol rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, o dan delerau'r Deddf honno y bydd cyfraith yr Undeb Ewropeaidd yn cael ei chymhathu â chyfraith y Deyrnas Unedig a chyfraith Cymru. Mae'r broses hon eisoes wedi cychwyn o du Llywodraeth y Deyrnas Unedig, a bydd yr holl orchmynion drafft ar gyfer cyfreithiau newydd yn cael eu cyhoeddi ar y wefan https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments.

Eisoes fe welwyd bod ambell un o'r gorchmynion drafft hyn yn newid y gyfraith. Er enghraifft, os nad oes cytundeb terfynol â'r Undeb Ewropeaidd, mae'n fwriad gan y Llywodraeth drwy'r Return of Cultural Objects (Revocation) Regulations 2018 i dynnu'n ôl o'r ymrwymiad o fewn yr Undeb Ewropeaidd i geisio dychwelyd creiriau hanesyddol a gymerwyd o un wlad i'r llall i'w cartref gwreiddiol. Yr enghraifft enwocaf o greiriau o'r fath yn y Deyrnas Unedig yw "cerrig Elgin" yn yr Amgueddfa Brydeinig a ddygwyd o'r Parthenon yng Ngwlad Groeg. Y bwriad yw i'r newid hwn effeithio ar y Deyrnas Unedig gyfan, gan gynnwys Cymru, er bod diwylliant, amgueddfeydd ac ati wedi eu datganoli.



5. Datganoli a deddfwriaeth Brexit

Rydym o hyd yn atgoffa Llywodraeth y DU am yr angen i barchu nid yn unig refferendwm 2016 ond hefyd refferendwm 2011, pan roddodd pobl Cymru ateb cadarnhaol i'r cwestiwn **A ydych yn dymuno i'r Cynulliad allu llunio deddfau ar bob mater yn yr 20 maes pwnc y mae ganddo bwerau ynddynt?** gyda'r esboniad ar y papur pleidleisio: *Os bydd y rhan fwyaf o bleidleiswyr yn pleidleisio 'ydw' bydd y Cynulliad yn gallu llunio deddfau ar bob mater yn yr 20 maes pwnc y mae ganddo bwerau ynddynt, heb orfod cael cytundeb Senedd y DU.*

Mae'n amlwg nad yw gweithredu hyn yn gwbl gydnaws â cholli'r fframwaith gyfreithiol gyffredin a ddarparwyd gan yr Undeb Ewropeaidd, a mae dal angen llawer o waith craffu o safbwynt Cymru ar y ddeddfwriaeth sydd i ddod trwy San Steffan, megis y Bil Masnach.

Fe fydd Gweithgor Cymru ac Ewrop Cytûn yn parhau i gadw golwg ar y materion hyn ar ran yr eglwysi a mudiadau Cristnogol yng Nghymru, a threfnu cyfleoedd yn lleol i bobl gael trafod y pethau hyn yn agored ac yn gyfeillgar. Cysyllter â gethin@cytun.cymru am fwy o fanylion.

CYMHELLION A RHWYSTRAU I YMGEISIO I FOD YN AELOD CYNULLIAD

Yn Rhagfyr 2017 fe gafwyd adroddiad gan Banel Arbenigol a sefydlwyd gan Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol am ddulliau ethol Aelodau Cynulliad. Ymhlith yr argymhellion oedd cymryd camau i gynyddu amrywiaeth yr ymgeisyddion mewn etholiadau trwy ganiatáu rhannu swyddi a sicrhau cyfartaledd yn nifer y merched a'r dynion sy'n aelodau.

Ar ddiwedd y tymor presennol, fe gyhoeddodd Comisiwn y Cynulliad, a gadeirir gan y Llywydd na fydd yn bwrw ymlaen â'r argymhellion hyn am y tro o leiaf, er y byddant yn deddfu i sicrhau pleidlais i bobl 16 mlwydd oed a newid enw'r Cynulliad i Senedd Cymru.

Yn Awst 2017, cafodd darllenwyr y *Bwletin* hwn gyfle i gyfrannu at ymchwil gan Huw Pritchard, Canolfan Llywodraethiant Cymru, Prifysgol Caerdydd, i'r cymhellion a'r rhwystrau sy'n wynebu pobl wrth feddwl (neu dewis peidio â meddwl) bod yn ymgeisyddion. Mae Huw yn diolch i bawb a ymatebodd, ac fe allwch nawr ddarllen ei ganfyddiadau o dan y teitl Dadansoddi Amrywiaeth. Gellir gweld hefyd Crynodeb yma.

GOFALWYR YN POENI AM Y DYFODOL

Cyhoeddwyd ymchwil newydd yn ystod yr Wythnos i Ofalwyr o'r enw "Cefnogi gofalwyr i fod yn iach ac yn gysylltiedig", ac roedd y canfyddiadau wedi'u seilio ar y 514 o ymatebion i arolwg Cyflwr Gofalu 2018 yng Nghymru gan Ofalwyr Cymru.

- Dywedodd dros hanner y gofalwyr yng Nghymru eu bod nhw'n disgwyl i'w hiechyd a'u lles corfforol (55%) a meddyliol (57%) waethygu yn ystod y ddwy flynedd nesaf.
- Dywedodd mwy na dau allan o bob pump (45%) o ofalwyr eu bod nhw'n disgwyl gallu darparu llai o ofal neu dim gofal o gwbl yn y dyfodol oherwydd iechyd corfforol gwael.
- Roedd dros draean o ofalwyr (37%) yn teimlo y byddai iechyd meddwl gwael yn golygu y buasent yn gorfod gofalu llai, neu dim o gwbl, yn y dyfodol.

Roedd gofalwyr yn poeni fwyaf am effaith straen a gorbryder ar eu hiechyd eu hunain o ganlyniad i ofalu. Yn ôl gofalwyr, y prif bethau sy'n cyfrannu fwyaf at eu straen a'u gorbryder ydy dim yn cael digon o gwsg, darparu gofal ymarferol i'r unigolyn maen nhw'n gofalu amdano, a llenwi ffurflenni i geisio cael cymorth ariannol neu ymarferol iddyn nhw eu hunain neu i'r unigolyn maen nhw'n gofalu amdanynt.

Mae gofalwyr yn poeni am y dyfodol Meddai Claire Morgan, ar ran Gofalwyr Cymru: "Mae'r ymchwil newydd hwn yn ein hatgoffa o'r cyfraniad enfawr sydd yn cael ei wneud gan y 370,000 o ofalwyr di-dâl yng Nghymru. Ni ddylid eu cymryd yn ganiataol. Heb y gofal di-dâl sydd yn cael ei ddarparu bob blwyddyn gan deulu a ffrindiau, byddai ein gwasanaethau iechyd a gofal yn chwalu. Eto, mae'r straen corfforol a meddyliol o ofalu, heb ddigon o gefnogaeth, yn peryglu gallu'r gofalwyr i ofalu yn y dyfodol. Mae dod o hyd i'r amser a'r gofod i fod yn iach, cael digon o gwsg ac i gynnal perthnasau gydag eraill i gyd yn heriau enfawr sydd wedi cael eu codi gan ofalwyr.

"Mae pob un ohonom yn gallu gweithredu i sicrhau bod gofalwyr yn ymwybodol, ac yn gallu cael mynediad i gymorth a chefnogaeth cyn gynted â phosib ar eu taith o ofalu. Mae rôl allweddol i'r Llywodraeth hefyd. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod cynghorau lleol ar draws Cymru yn cyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Mae'n rhaid i gynghorau nodi, darparu gwybodaeth a chyngor priodol i gefnogaeth i'w galluogi nhw i ofalu am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain".

Talfyrwyd o Gylchlythyr Gofalwyr Cymru, Gorffennaf 2018

CWRICWLWM NEWYDD YSGOLION CYMRU



Mae Cytûn yn parhau i gadw mewn cysylltiad agos ag Adran Addysg Llywodraeth Cymru wrth i gyhoeddi drafft cyntaf y cwricwlwm newydd yng ngwanwyn 2019 agosáu (gweler yr amserlen uchod).

Ym Mai 2018 fe gyfarfu swyddog o'r Adran â Chyngor Eglwysi Rhyddion Cymru i drafod eu persbectif nhw ar y cwricwlwm yn gyffredinol, ac Addysg Grefyddol yn benodol. Mae yna ymgynghori parhaus hefyd â'r Eglwys yng Nghymru a Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig yng Nghymru. Fe gynrychiolir Fforwm Cymunedau Ffydd Cymru ar Grŵp Rhanddeiliaid Strategol y Cwricwlwm gan Cytûn a Chyngor Bwdhaidd Cymru.

Gellir gweld fideo o Dylan Foster-Evans, Prif Weithredwr yr Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol, yn esbonio'r datblygiadau diweddaraf yma.

CYSYLLTU Â SWYDDOG POLISI CYTÛN neu tanysgrifio i'r Bwletin drwy ebost

Parch./Revd Gethin Rhys - Swyddog Polisi/Policy Officer
Cytûn - Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales

58 Richmond Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 3AT
Tel: 029 2046 4378 Mudol/mobile: 07889 858062

E-bost/E-mail: gethin@cytun.cymru **@CytunNew**

Hapus i gyfathrebu yn Gymraeg ac yn Saesneg. Happy to communicate in Welsh and English

Mae Cytûn yn gwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr | Rhif: 05853982 | Enw cofrestredig: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" |
Mae Cytûn yn elusen gofrestredig | Rhif: 1117071 |
Dyddiad cyhoeddi: 2 Awst 2018. Cyhoeddir y Bwletin nesaf ar ddechrau Hydref 2018.